

COMISIYNYDD POBL HŶN CYMRU

LLE I'W ALW'N GARTREF

YMATEB CYNGOR GWYNEDD

Casgliad Allweddol 1: Mae gormod o bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yn cael eu sefydliadu yn gyflyn. Mae eu hunaniaeth a'u hunigoliaeth yn gwano'n gyflym ac mae ganddynt ddiffyg dewis a rheolaeth ar eu bywydau
Polisi Llywodraeth Cymru a meysydd deddfwriaethol: Deddf Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus a Lles (Cymru) 2014. Datganiad Hawliau Pobl Hŷn, Fframwaith ar gyfer Cyflawni Gofal Iechyd a Chymdeithasol Integredig i Bobl Hŷn ag anghenion Cymhleth, asesu Integredig, trefniadau Cynllunio ac Adolygu ar gyfer Pobl Hŷn.

Camau Gofynnol	Sefyllfa Gyfredol	Camau Gweithredu	Gan bwy / Erbyn pryd
<p>1.2 Mae'r holl bobl hŷn neu eu heiriolwyr yn derbyn " Pecyn Croeso" safonol wrth gyrraedd cartref gofal sy'n nodi sut y bydd Rheolwr y Cartref Gofal yn sicrhau y bydd eu hanghenion yn cael eu bodloni , eu hawliau'n cael eu parchu a'u bod yn cael yr ansawdd bywyd gorau posib. Bydd y Pecyn yn cyfeirio'n benodol at</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut fydd y Rheolwr yn Cefnogi'r preswlydd wrth iddo symud i'w gartref newydd? • Gwybodaeth safonol am eu hawliau dynol yn unol â Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn Cymru. • Datganiad o Hawliau i dderbyn cefnogaeth gofal ac iechyd. • Cefnogaeth i gynnal annibyniaeth, ymataliaeth, symudedd a lles corfforol ac emosiynol. • Sicrhau bod eu hanghenion cyfathrebu'n cael eu bodloni, yn cynnwys pobl sy'n colli defnydd o synhwyrâu. • Cynnal cyfeillgarwch a chyswllt cymdeithasol. • Cefnogaeth i'w helpu i gynnal eu hannibyniaeth ac i barhau i allu gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt. • Datblygu a chynnal y gofal a roddir iddo a'r cynllun cefnogaeth, a beth fydd yn gynwysedig ynddo. • Sicrhau diwylliant o urddas a pharch a dewis a 	<ul style="list-style-type: none"> • Pecynnau gwybodaeth ynglŷn â chartrefi unigol wedi'u datblygu. • Newyddlen "preswyl" yn cael ei gyhoeddi'n rheolaidd. • Llawlyfr " Y Daith – Ymlaen Gyda'n Gilydd " wedi'i gyhoeddi a'i ddsbarthu yn egluro gwerthoedd ein gwasanaethau , ystyr fod y person yn ganolog, ethos ein gwasanaeth ac yn y blaen. 	<ul style="list-style-type: none"> • Pob cartref preswyl mewnol i adolygu'r pecyn croeso / pecyn gwybodaeth sydd eisoes ar gael i breswylwyr teuluoedd ac eiriolwyr gan sicrhau sylw i bob elfen unigol o fewn y camau gofynnol. • Dylid sefydlu grŵp tasg ar fyrder i lunio "braslun " pecyn croeso all fod yn sail i'r gweddill. • Dylid cynnwys sut y bydd y cartref yn sicrhau hawliau a sut y bydd yn sicrhau cyfarfod ag anghenion. • Pob cartref mewnol i weithredu model "Person Canolog" gan gynnwys cofnodi cynlluniau gofal mewn dull sy'n ddealladwy i'r preswlydd, teulu ac eiriolwyr. • Rheolwyr ardal i gyflwyno'r newid mewn perthynas â Chynllunio Gofal ac i adnabod rheolwyr cartrefi a staff fydd angen cymorth pellach i weithredu'n effeithiol. • Swyddogion adolygu i ofyn sut mae darparwr gofal yn cyfarfod ag anghenion y person hŷn. • Rheolwyr Ardal i gynnal audit o gydymffurfiaeth (darpariaeth fewnol) 	<p>Darparwyr Cartrefi Gofal a Nyrsio Ebrill 2015 Uwch Reolwr Gwasanaeth Darparu Rheolwyr Ardal y Gwasanaeth Darparu Uwch Reolwr Gwasanaeth Busnes Rheolwyr Comisiynu a Chontractau</p>

<p>rheolaeth ar fywyd bob dydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau a Hyfforddiant staff. • Eu hawl i dderbyn eiriolaeth annibynnol a sut i leisio pryderon. 		<p>ddechrau Ebrill 2015.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr Uned Gomisiynu a'r Uned Gontractau (Gwasanaeth Busnes) i sicrhau fod cartrefi preifat / annibynnol (gan gynnwys Tai Gofal Ychwanegol) yn cydymffurfio a phob elfen o'r camau. • Rheolwyr Comisiynu / Contractau i gynnal audit o gydymffurfiaeth (darpariaeth allanol) ddechrau Ebrill 2015. 	
<p>1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pan fo pobl hŷn mewn perygl, neu yn dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol. • lle mae cartref gofal yn cau neu berson hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid. • pan fo person hŷn angen cymorth i'w helpu i adael yr ysbyty. <p>Yn achos y rhai sydd â chapasiti anwadal neu anawsterau cyfathrebu, dylai hwn fod yn eiriolaeth na chyfarwyddir.</p> <p>Pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, mae'n rhaid i breswylwyr gael mynediad i eiriolaeth na chyfarwyddir.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Comisiynir gwasanaeth eiriolaeth gan Gymdeithas Eiriolaeth a Chyngor Gogledd Cymru. 	<ul style="list-style-type: none"> • Pob cartref preswyl i ddatblygu / adolygu gwybodaeth i breswylwyr am eiriolaeth gan gynnwys datblygu posteri a phamffledi er mwyn codi ymwybyddiaeth. • Uned Gomisiynu a Chontractau i fonitro ac adolygu'r defnydd a wneir o eiriolaeth ac i fonitro safon yr eiriolaeth gan gynnwys sicrhau adborth ar hyn gan ddefnyddwyr y gwasanaeth. 	<p>Uwch Reolwr i arwain ar hyn. Cytunwyd y bydd posteri a gwybodaeth yn cael ei gynhyrchu yn ganolog a'u rhannu gyda'r cartrefi mewnol a phreifat erbyn Gorffennaf 2015. Bydd yr adnoddau hyn yn egluro beth yw eiriolaeth, pwy all eirioli, natur eiriolaeth annibynnol a sut a phryd y dylid gwneud defnydd ohono.</p> <p>Rheolwr yr Uned i arwain ar hyn ac i adrodd ar y canfyddiadau i'r Uwch Reolwr ac i'r Tîm Rheoli Oedolion, Iechyd a Llesiant yn chwarterol o Fedi 2015 ymlaen. Dylid defnyddio'r wybodaeth a gesglir fel sail i adolygu/ gwerthuso contractau.</p>

		<ul style="list-style-type: none"> • Angen datblygu canllawiau a sicrhau adborth gan bobl sydd wedi derbyn eiriolaeth. • Angen mapio ‘r ddarpariaeth bresennol. • Rheolwyr a staff i dderbyn hyfforddiant ar ddefnydd effeithiol o eiriolaeth o fewn cartrefi. • Sicrhau y cynigir eiriolaeth yn y sefyllfaoedd a ddisgrifir yn y camau gofynnol. 	<p>Uwch Reolwr Darparu ac Uwch Reolwr Busnes i sicrhau bod cydweithio gyda defnyddwyr yn digwydd i lunio canllawiau sydd i’w cwblhau erbyn Medi 2015. Dylid defnyddio’r ddogfen “Llais, Dewis a Rheolaeth” fel sail i’r gwaith hyn.</p> <p>Rheolwr yr Uned Gomisiynu & Contractau i gwblhau hyn erbyn Mehefin 2015.</p> <p>Rheolwyr Ardal y Gwasanaeth Darparu i drefnu hyn i reolwyr / staff cartrefi mewnol yn syth (Mai 2015). Rheolwr a staff Uned Contractau i argymhell hyn i gartrefi preifat a monitor lefel yr hyfforddiant wrth fonitro cydymffurfiaeth a’r gofynion.</p> <p>Rheolwyr cartrefi i sicrhau hyn ym mhob sefyllfa nodir yn y camau gofynnol. Rheolwyr Ardal i fonitro’n fewnol a Rheolwr Uned Contractau i fonitro o fewn y sector breifat. Hyn i ddigwydd yn syth .</p>
--	--	---	--

Casgliad Allweddol 2: Yn rhy aml, ystyrir bod cartrefi gofal yn llefydd o ddirywiad anadferadwy ac mae gormod o bobl hŷn yn methu cael mynediad i wasanaethau a chefnogaeth arbenigol fyddai'n eu helpu i gael yr ansawdd bywyd gorau.

Polisi Llywodraeth Cymru a meysydd deddfwriaethol: Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Lles (Cymru) a Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu, Law yn Llaw at Iechyd – Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc 2012-16.

Camau Gofynnol	Sefyllfa Gyfredol	Camau Gweithredu	Gan Bwy / Erbyn
<p>2.2 Mae gan bobl hŷn fynediad i wasanaethau arbenigol a, phan fo hynny'n briodol, i ofal amlddisgyblaethol a ddyluniwyd i gefnogi adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Unedau Galluogi a Gofal Canolraddol eisoes wedi'u sefydlu mewn cartrefi preswyl (mewnol) ym mhob un o'r 3 ardal yng Ngwynedd. Unedau gofal tymor byr sy'n rhoi cyfle i bobl hŷn naill ai osgoi cyfnod ysbyty neu gryfhau ac ail ddatblygu sgiliau yn dilyn cyfnod mewn ysbyty. • Staff wedi'u hyfforddi yn egwyddorion "galluogi". • Arbenigwyr megis therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion yn cydweithio gyda staff cartrefi . • Cynlluniau Gofal gyda'r ffocws ar ganlyniadau i'r unigolyn wedi'u datblygu. • Cynllun gweithio 7 niwrnod wedi'i gyflwyno yn Ysbyty Gwynedd gyda Gweithiwr Cymdeithasol ac Asesydd Gofal gan hwyluso'r broses i bobl hŷn sy'n gadael yr ysbyty ar y penwythnos. 	<ul style="list-style-type: none"> • Angen sicrhau fod pob aelod o staff yn yr unedau'n gweithio i egwyddorion galluogi gyda'r ffocws ar ganlyniadau penodol i'r unigolyn. • Y Fforwm Sirol yn derbyn adroddiadau cynnydd cyson mewn perthynas â'r agwedd yma o ofal pobl hŷn. • Angen adolygu'r cynllun gweithio 7 diwrnod o ran yr Awdurdod Lleol a holi a fyddai'n bosibl / ddymunol lledaenu'r ymarfer. • Datblygu model gweithwyr cefnogol generig all sicrhau sylw i anghenion gofal ac iechyd sylfaenol . 	<p>Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol mewn partneriaeth.</p> <p>Gorffennaf 2015 Aelodau'r Fforwm Sirol i fonitro ac i ymateb i ddileu rhwystrau. Uwch Reolwr Gwasanaeth Pobl Hŷn. Rheolwyr Ardal y Gwasanaeth Darparu. Rheolwyr Ardal / Uwch Ymarferwyr Gwasanaethau Pobl Hŷn. Rheolwyr cartrefi mewnol perthnasol.</p>

Casgliad Allweddol 3: Nid yw eiddilwch emosiynol ac anghenion emosiynol pobl hŷn yn cael eu bodloni na'u cydnabod yn llwyr gan y system, ac nid yw esgeulustod emosiynol yn cael ei gydnabod fel camdriniaeth.

Polisi Llywodraeth Cymru a meysydd deddfwriaethol: Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – Strategaeth ar Gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Gweledigaeth Genedlaethol Cymru ar Dementia 2011 a Thargedau Deallus ar gyfer Dementia. Safon Ansawdd Dementia NICE 2010. Safon Ansawdd Dementia NICE 2010 a Chanllaw Clinigol NICE 42. Tachwedd 2006 (diwygiwyd Mawrth 2011).

Camau Gofynnol	Sefyllfa Gyfredol	Camau Gweithredu	Gan Bwy / Erbyn
<p>3.2 Mae holl weithwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'r drefn gynefino, ac mae'r holl staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia ychwanegol yn barhaus fel rhan o ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, ac mae hyn yn elfen benodol o oruchwylio ac asesu perfformiad.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Eisoes pwysleisiwyd i reolwyr cartrefi (mewnol) fod pwyslais pob cartref i fod ar gefnogaeth / gwasanaeth emosiynol yn hytrach nac ar dasgau. Cyflogwyd "gofalwyr tŷ" o fewn cartrefi i ymgymryd â'r tasgau cadw tŷ gan ryddhau staff gofal i gydweithio gyda'r preswylwyr ac i sicrhau fod y cartref yn cyfarfod a'u hanghenion. Eisoes mae staff cartrefi'n derbyn Hyfforddiant ar dair lefel – Ymwybyddiaeth Dementia (sylfaenol), Dementia Lefel 2 a Dementia Lefel 3 Eisoes – Rheolwyr Cofrestredig, Rheolwyr Cynorthwyol ac Uwch Gymorthyddion wedi'u dynodi'n Arweinwyr Dementia o fewn y cartrefi. Maent wedi'u hyfforddi i Lefel 3. Cydweithio agos gyda'r Athro Bob Wood (Prifysgol Bangor) a David Shear der mwyn dysgu o ymchwil ac adnabod ymarfer da. 	<ul style="list-style-type: none"> Parhau gyda'r Hyfforddiant sydd eisoes yn digwydd gan sicrhau fod pob aelod o staff gofal wedi mynychu. Uned Contractau i fonitro staff cartrefi preswyl preifat / annibynnol sy'n mynychu'r Hyfforddiant dementia a chynnwys y wybodaeth mewn adroddiadau ar safon gofal. Ystyried noddi nifer o reolwyr cofrestredig i fynychu Hyfforddiant "Dementia Care Matters". Trefnu Hyfforddiant Cymhelliant (Motivation) a Chyfathrebu effeithiol. Datblygu Hyfforddiant "Low Arousal Techniques" gan gefnogi'r ethos o roddi'r person yn ganolog i bob dim a wneir. 	<p>Awdurdodau Lleol a Darparwyr Gofal Preswyl</p> <p>Uwch Reolwr Darparu Rheolwyr Ardal Rheolwyr Cartrefi Uned Datblygu'r Gweithlu/ Hyfforddiant</p> <p>Ionawr 2016</p>
<p>3.3 Dylid cymryd camau o ddifrif i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal, yn cynnwys prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chefnogi preswylwyr i ddal eu gafael ar</p>	<ul style="list-style-type: none"> Cynlluniau Gofal o fewn cartrefi (mewnol) yn berson canolog ac felly'n canolbwyntio mewn dull holistaidd nid yn unig ar anghenion ond ar hanes, 	<ul style="list-style-type: none"> Cynnal audit o safon Cynlluniau o fewn cartrefi gan sicrhau fod pob un yn dilyn Cynlluniau Person Canolog. Cartrefi i dystiolaethu eu bod yn 	<p>Uwch Reolwr Darparu Rheolwyr Ardal Darparu Rheolwyr Cartrefi unigol Rheolwyr Uned Comisiynu a</p>

<p>gyfeillgarwch sy'n bodoli. Mae'n rhaid i hyn gynnwys sicrhau mynediad parhaus i gefnogaeth sy'n seiliedig ar ffydd ac i gymunedau diwylliannol penodol.</p>	<p>diddordebau a chysylltiadau preswylwyr.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nifer o'r cartrefi gyda pherthynas glos gyda sefydliadau (ysgolion, capeli, eglwysi ac yn y blaen) o fewn cymunedau. • Cartrefi'n croesawu teuluoedd sy'n ymweld ac yn eu gwahodd i aros am fwyd e.e. cinio Nadolig. • Gwasanaethau "ffydd" yn digwydd yn y cartrefi'n rheolaidd. • Y Cartrefi (mewnol) yn ddwyieithog (Cymraeg / Saesneg) ac yn gallu ymateb i anghenion ieithyddol preswylwyr. 	<p>hwyluso trefniadau i unrhyw breswlydd allu cynnal cysylltiad gyda diddordebau y tu allan i'r cartref (Capel, Eglwys, Cyfarfodydd Cymdeithasol megis WI neu Merched y Wawr, Clwb Sgota ac yn y blaen).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cartref i dystiolaethu eu bod yn hwyluso trefniadau i breswylwyr gynnal cysylltiad gyda ffrindiau ac aelodau'r teulu drwy ymweliadau wyneb yn wyneb , drwy skype, e bost , u tube. • Cartrefi i ddatblygu perthynas glos gyda sefydliadau a mudiadau o fewn y gymuned. • Ymchwilio i'r posibilrwydd o hwyluso ymweliadau gan deulu a ffrindiau sy'n byw ymhell drwy gynnig llety dros nos (Nifer o'r cartrefi yn cynnwys fflatiau ar wahân na ddefnyddir bellach)neu drwy helpu gyda threfniadau aros. • Sicrhau fod gwasanaethau crefyddol yn adlewyrchu anghenion preswylwyr unigol. • Uned contractau i fonitro camau a gymerir gan gartrefi preifat / annibynnol i gynnal yr uchod. 	<p>Chontractau</p>
--	--	--	--------------------

Casgliad Allweddol 4: Ni chydabyddir neu ni ymatebir i rai o anghenion gofal mwyaf elfennol pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Polisi Llywodraeth Cymru a meysydd deddfwriaethol: Hanfodion gofal, Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Bobl Hŷn, Law yn Llaw at Iechyd: Gweledigaeth Pum Mlynedd ar gyfer GIG Cymru, Gosod y Cyfeiriad, Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid 2013-2018, Fframwaith Gyflawni GIG Cymru 2013-14 a Chynlluniau ar gyfer y Dyfodol, Cynllun Iechyd Gwledig - Darparu Gwasanaethau yn Well ar draws Cymru, Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Iechyd y Geg 2013-18, Ddeddf Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus a Lles (Cymru) 2014.

Camau Gofynnol	Sefyllfa Gyfredol	Camau Gweithredu	Gan Bwy / Erbyn
<p>4.1 Datganiad Cenedlaethol a Hawliau i ofal iechyd sylfaenol ac arbenigol i bobl hŷn mewn cartrefi gofal yn cael ei ddatblygu ac mae ar gael i bobl hŷn, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mynediad rheolaidd i wiriadau iechyd y llygaid, y golwg a'r clyw. • Cyngor a chefnogaeth ynghylch diet. • Mynediad i wasanaethau podiatreg a deintyddol. • Mynediad i wasanaethau nyrsio arbenigol. • Mynediad i feddyg teulu a chefnogaeth ynghylch meddyginiaethau. • Cefnogaeth iechyd meddwl arbenigol. • Hyrwyddo iechyd a chefnogaeth ail-alluogi. <p>Mae'n rhaid i hyn gynnwys gofal preswyl a nyrsio. Mae darparwyr cartrefi gofal yn sicrhau bod pobl hŷn yn derbyn gwybodaeth am eu hawliau o ran gofal iechyd fel rhan o'u 'Pecyn Croeso' (gweler cam 1.2).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Perthynas gadarnhaol gyda meddygon teulu, nyrsys ardal, - ond asesir hyn ar sail nifer cwynion neu adborth negyddol gan staff yn hytrach nag ar dystiolaeth. 	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau gwybodaeth am hawliau iechyd o fewn "Pecynnau Croeso". • Monitro gwiriadau iechyd y llygaid, diet, gwasanaethau podiatreg a deintyddol gan adrodd ar y sefyllfa ym mhob cartref a dwyn unrhyw broblemau i sylw'r Fforwm Sirol. • Monitro mynediad at wasanaethau arbenigol e.e. nyrs arbenigol, cefnogaeth iechyd meddwl gan adrodd ar y sefyllfa ym mhob cartref a dwyn unrhyw broblemau i sylw'r Fforwm Sirol. • Monitro perthynas gyda meddygon teulu gan adrodd ar y sefyllfa ym mhob cartref. 	<p>Llywodraeth Cymru (lefel uchaf)</p> <p>Bwrdd Iechyd / Awdurdod Lleol ar lefel leol</p> <p>Rheolwyr Cartrefi</p> <p>Rheolwyr Comisiynu a Chontractau</p>
<p>4.2 Mae cytundeb ffurfiol yn cael ei ddatblygu a'i weithredu rhwng y cartref gofal a gwasanaethau gofal sylfaenol ac arbenigol yn seiliedig ar y Datganiad o Hawliau. Dylai hyn gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llwybrau atgyfeirio, yn cynnwys mynediad agored. 		<ul style="list-style-type: none"> • Cartrefi gofal i sicrhau fod y cytundebau ffurfiol yma'n addas i bwrpas ac yr adlewyrchir eu cynnwys yn y Pecynnau Croeso a ddarperir i breswylwyr newydd a'u teuluoedd. Problemau neu 	<p>Llywodraeth Cymru (lefel uchaf)</p> <p>Bwrdd Iechyd / Awdurdod Lleol ar lefel leol</p> <p>Rheolwyr Cartrefi</p> <p>Rheolwyr Comisiynu a</p>

<ul style="list-style-type: none"> • Amseroedd aros. Gwybodaeth am atgyfeirio a rhyddhau. • Cyngor a gwybodaeth i gefnogi gofal parhaus y person hŷn yn y cartref. • Mynediad i wasanaethau arbenigol i bobl hŷn mewn cartrefi nyrsio yn unol â'r Canllawiau Hanfodion Gofal. 		<p>anawsterau i'w dwyn ger bron y Fforwm Sirol er sicrhau datrysiad.</p>	<p>Chontractau</p>
<p>4.3 Darperir gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant pan fo'n briodol i staff gofal er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn adnabod anghenion iechyd pobl hŷn yn ogystal â phryd a sut i atgyfeirio.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Staff nyrsio / ffisiotherapyddion / meddygon mewn ardal yn barod iawn ar y cyfan i drafod ymarfer gorau ac i gyfarwyddo staff gofal wrth ymdrin â phreswylwyr yn dioddef o anhwylderau arbennig . Angen “ffurfioli” hyn. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfannu Hyfforddiant Iechyd sylfaenol i Hyfforddiant anwytho pob aelod o staff. • Sicrhau Hyfforddiant arbenigol i staff pan fo hynny'n addas er mwyn ymateb i anghenion preswylwyr unigol. 	<p>Llywodraeth Cymru (lefel uchaf) Bwrdd Iechyd / Awdurdod Lleol ar lefel leol Rheolwyr Cartrefi Rheolwyr Comisiynu a Chontractau</p>
<p>4.4 Wrth gyrraedd cartref gofal, mae pobl hŷn yn derbyn adolygiadau o feddyginiaethau gan weithiwr proffesiynol clinigol gymwys, ac adolygiadau rheolaidd o feddyginiaethau'n cael eu cynnal yn unol â'r arferion gorau a gyhoeddwyd.</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Trafod mater adolygu meddyginiaeth ar lefel Fforwm Sirol – llawer o waith eisoes yn digwydd ac angen adeiladu ar hyn. 	<p>Llywodraeth Cymru (lefel uchaf) Bwrdd Iechyd / Awdurdod Lleol ar lefel leol Rheolwyr Cartrefi Rheolwyr Comisiynu a Chontractau</p>

Casgliad Allweddol 5: Nid yw pwysigrwydd hanfodol rôl a chyfraniad gweithlu cartrefi gofal yn cael ei gydnabod yn ddigonol. Nid oes digon o fuddsoddi yn y sector ac mae yna brinder cefnogaeth i weithlu cartrefi gofal.

Polisi Llywodraeth Cymru a meysydd deddfwriaethol: Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol, Asesu Integredig, Trefniadau Cynllunio ac Adolygu ar gyfer Pobl Hŷn

Camau Gofynnol	Sefyllfa Gyfredol	Camau Gweithredu	Gan bwy / Erbyn
<p>5.5 Mae'n rhaid i bob cartref gofal gael o leiaf un aelod o'r staff sy'n hyrwyddwr dementia.</p>	<p>Rheolwyr Cofrestredig, Rheolwyr Cynorthwyol ac Uwch Gymorthyddion wedi'u dynodi'n Arweinwyr Dementia o fewn y cartrefi .Maent wedi'u hyfforddi i Lefel 3.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bod yn glir ynglŷn â'r hyn ddisgwylir o'r rôl Arweinwyr / Hyrwyddwr Dementia. • Monitro effeithiolrwydd yr Arweinwyr Dementia yn y cartrefi mewnol. • Uned contractau'n monitro fod Arweinwyr Dementia o fewn cartrefi preifat / annibynnol. 	<p>Swyddog Arweiniol Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a Darparwyr Gofal Preswyl.</p> <p>Uwch Reolwyr Darparu , Gwasanaeth Pobl Hŷn Rheolwyr Ardal Darparu a Phobl Hŷn.</p> <p>Rheolwyr Cartrefi Preswyl (mewnol)</p> <p>Rheolwr Uned Comisiynu a Chontractau Medi 2016</p>
<p>5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal ble mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch yr ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu dorri hawliau dynol o bosibl.</p> <p>Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio rheolwyr cartrefi gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol er mwyn codi safonau ansawdd bwyd a gofal i breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol.</p> <p>Dylai'r gwasanaeth hefyd ddatblygu ystod o</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu systemau gweithredu yn dilyn "escalating concerns" mewn cartrefi yn lleol gan ystyried sefydlu tîm fyddai'n cynnwys rheolwyr profiadol i weithredu fel "task busters". • Adolygu lle y dylai'r swyddogion yma "eistedd" o fewn yr Adran - O fewn Comisiynu a Chontractau neu o fewn Tîm Diogelu. • Sicrhau Hyfforddiant addas / berthnasol i aelodau'r tîm yma. • Adnabod staff allai gyfrannu ar lefel 	<p>Swyddog Arweiniol Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a Darparwyr Gofal Preswyl.</p> <p>Uwch Reolwyr Darparu , Gwasanaeth Pobl Hŷn Rheolwyr Ardal Darparu a Phobl Hŷn.</p> <p>Rheolwyr Cartrefi Preswyl (mewnol)</p> <p>Rheolwr Uned Comisiynu a</p>

adnoddau a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunan ddatblygu a gwelliannau parhaus.		<p>Genedlaethol gan sicrhau ymateb prydlon pe bai angen.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal "adult practice review" yn dilyn achosion lleol gan sicrhau dysgu o'r profiadau - dylai'r adolygiad gynnwys preswylwyr a theuluoedd. 	Chontractau Medi 2016
---	--	--	-----------------------

Casgliad Allweddol 6: Mae'r systemau comisiynu, archwilio a rheoleiddio yn anghyson, yn brin o integreiddio a thryloywder, nid ydynt yn ddigon agored, ac nid ydynt yn cydnabod pwysigrwydd ansawdd bywyd yn ffurfiol.

Polisi Llywodraeth Cymru a meysydd deddfwriaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol.

Camau Gofynnol	Sefyllfa Gyfredol	Camau Gweithredu	Gan Bwy / Erbyn
<p>6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Anogwyd sefydlu Pwyllgor Preswylwyr a Chyfeillion ym mhob cartref mewnol i'r Cyngor gyda'r nod o "roddi cyfle i breswylwyr, teuluoedd a chyfeillion o'r gymuned leol fynegi barn am y gofal a geir mewn cartref unigol ac i gynnig syniadau ynglŷn â'r datblygiadau yr hoffent eu gweld ar gyfer y dyfodol" (Cylch Gorchwyl wedi'i lunio). • Ymweliadau cyson yn digwydd i gartrefi mewnol gan reolwyr ac aelodau gwleidyddol. Rhan o bob archwiliad yw cyfweld defnyddwyr mewn sefyllfa breifat a holi am eu profiad (Adran 27). 	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu llwyddiant y "Pwyllgorau" hyn a dysgu o'r adolygiad. Rhannu'r argymhellion gyda rheolwyr, staff, preswylwyr a theuluoedd yn ogystal â gweithwyr cymdeithasol pob ardal. • Rhannu'r dysgu o'r uchod gyda'r sector allanol drwy'r Uned Gomisiynu a Chontractau a thrwy'r Fforwm Darparwyr Allanol Preswyl a Nyrsio .Dylai trafodaeth am sut y gellir gwrando'n uniongyrchol ac yn effeithiol fod yn eitem sefydlog ar agenda'r cyfarfodydd hyn gan gydnabod y gallwn ddysgu trwy'n gilydd. • Adolygu'r Archwiliadau 27 gan sicrhau fod y pwyslais ar farn defnyddwyr a theuluoedd. Sicrhau y gall preswylwyr weld archwilywyr mewn man preifat ac ar eu pen eu hunain- cofnodi hyn. • Sicrhau fod ymweliadau a chartrefi allanol yn cynnwys yr un pwyslais a bod dewis bob amser i breswylwyr gyfarfod a'r ymwelydd mewn man preifat. • Sicrhau ymweliadau gyda min nos 	<p>Darparwyr Gofal Preswyl , Awdurdodau Lleol , Byrddau Iechyd a'r AGGCC Rheolwyr Ardal (Darparu) Rheolwyr Cartrefi Rheolwyr Uned Comisiynu a Chontractau Gweinyddwr Fforwm Darparwyr Ebrill 2015 ymlaen</p>

		<p>ac yn ystod y nos (gyda rhybudd ac yn ddirybudd)- tuedd ar hyn o bryd i'r ymweliadau fod yn ystod oriau gwaith. Hyn yn wir yn fewnol ac allanol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau y gall preswylwyr mewn cartrefi preswyl fynychu cyfarfodydd Fforwm Pobl Hŷn Gwynedd ynghyd a'r Cyngor Pobl Hŷn. • Sicrhau fod preswylwyr yn cael pob cyfle i fynegi barn ,cynnig sylwadau a chyfrannu yn eu dewis iaith (Cymraeg / Saesneg) a sicrhau fod trefniadau addas ar gyfer sicrhau hyn lle mae iaith arall yn iaith gyntaf . • Sicrhau , mewn sefyllfaoedd lle na all preswylwyr gyfathrebu trwy iaith lafar y defnyddir dulliau amrywiol (ysgrifennu , lluniau , ac yn y blaen) i gael eu barn a'u sylwadau . • Dylid cydnabod mewn rhai sefyllfaoedd ,er enghraifft unedau dwys ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, fod angen treulio cryn amser er mwyn dod i nabod pobl drwy arsyllu ar eu sefyllfa , dod i wybod am eu diddordebau a'r hyn sy'n rhoi bodlonrwydd iddynt . Trwy hyn gellir dechrau dod i adnabod hefyd y profiadau sy'n creu anhapusrwydd / anniddigrwydd iddynt. Gellir cychwyn adnabod eu llais a 	
--	--	--	--

		<p>gwrando arnynt.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylid sicrhau , yn ystod ymweliadau (mewnlol ac allanol) y rhoddir cyfle i unigolion “ distaw” leisio barn a rhannu profiad ac nid yn unig y bobl sy’n gwirfoddoli neu a ddewisir gan staff y cartref. • Dylid sicrhau fod cyfle, i bawb sy’n dymuno, gael cymorth eiriolwr mewn sefyllfa fel hyn fel y gallant fynegi barn , gynnig sylwadau trwy’r eiriolwr . Gall yr eiriolwr fod yn aelod o’r teulu, ffrind neu debyg neu’n eiriolwr a drefnir gan y gwasanaeth . • Dylid defnyddio gwahanol ddulliau i hel barn - cyfweiliadau unigol , preifat , cyfweiliadau grŵp yn y cartref , cyfweiliadau grŵp y tu allan i’r cartref (dros ginio?) ac yn y blaen. Dylid bod mor greadigol â phosibl a dylid rhannu syniadau ar draws y sectorau. • Sefydlu Tîm Monitro Ansawdd Bywyd Cartrefi Preswyl i gynnwys pobl sydd yn breswylwyr neu sydd wedi treulio amser mewn lleoliad preswyl. • Hyrwyddo blwch syniadau ym mhob cartref. • Uned Contractau i adolygu eu dull monitro gan sicrhau fod y pwyslais ar safon gofal .Sicrhau fod staff wedi’u hyfforddi i ymgymryd â’r gwaith yma. 	
--	--	--	--

		<ul style="list-style-type: none"> • Aseu a gwerthuso cynigion/ argymhellion yn deillio o'r uchod (Pwyllgorau , Archwiliadau Adran 27, Fforymau, Adolygiadau Gofal, ymweliadau monitor contractau, sylwadau ffurfiol ac anffurfiol) gan ganolbwyntio ar wella'r canlyniadau i bobl hŷn sy'n preswyllo yn y cartrefi. • Datblygu rhaglen waith o'r uchod (ar lefel cartref unigol neu ar lefel ardal) gan fonitro cynnydd ac adrodd ar hyn i breswylwyr a theuluoedd yn unigol (lle'n berthnasol) neu drwy newyddlen. • Lledaenu'r ymarfer o gynnwys preswylwyr yn y broses o gyfweid a phenodi staff i swyddi yng nghartrefi mewnol y Cyngor (trwy broses canolfan aseu). Hyn eisoes yn/wedi digwydd mewn nifer o gartrefi ac wedi profi'n effeithiol. Lledaenu'r dysgu o hyn i gartrefi allanol. 	
<p>6.7 Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Argaeledd eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi gofal. • Ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, yn cynnwys cyfeiriad penodol at bobl hŷn sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o synhwyrau. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol sy'n adrodd ar berfformiad y gwasanaethau perthnasol dros y flwyddyn aeth heibio ynghyd ag adnabod blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod i ddod. Mae amserlen bendant i'r adroddiad yma a gyflwynir i'r Cyngor llawn ac sydd ar gael i'r cyhoedd mewn ffurf papur neu ar y we. Bwriedir defnyddio'r un <u>amserlen</u> ar 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio'n llwyr gyda'r gofyniad i gyhoeddi Datganiad Ansawdd Blynyddol. Bydd y datganiad yn cynnwys gwybodaeth am ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a chartrefi gofal mewnol a bydd yn rhoi sylw arbennig i'r materion a nodir yn yr adran "Camau Gofynnol". 	<p>Awdurdodau Lleol– Outline AQS.</p> <p>Medi 2015. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol</p>

<ul style="list-style-type: none"> • Sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ar draws yr Awdurdod Lleol. • Safbwyntiau pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleeg ynghylch yr ansawdd bywyd a'r gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal. • Lleoliad daearyddol cartrefi gofal. <p>Dylai manylion ychwanegol ynghylch gofynion adrodd yn ôl gael eu cynnwys fel rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Archwilio.</p>	<p>gyfer y Datganiad Ansawdd Blynnyddol, ond bydd yn adroddiad ar wahân.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • O ran amserlen bydd yn dilyn yr un amserlen a'r adroddiad y Cyfarwyddwr. 	
---	--	--	--